

SWYDD DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd	: Rheolwr Datblygu – Cymorth YAYMG (Cymru)
Atebol i	: Uwch Reolwr Gweithrediadau (Cymru)
Goruchwylio/Rheoli pobl	: Tîm bach
Wedi'i leoli yn	: Tŷ Aneurin Bevan, Tredegar
Ardaloedd Cyflenwi	: Rhaglenni'r Ymddiriedolaeth
Cyflog	: £46,337
Buddiannau	: Pensiwn cyfrannol, cynnig gwyliau hael a lles

Pwrpas y Swydd

Arwain y gwaith o gyflawni rhaglen Gymorth YAYMG yng Nghymru yn strategol a gweithredol, gan gefnogi adfywio dan arweiniad y gymuned drwy gryfhau capasiti, gwytnwch a chynaliadwyedd sefydliadau Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol (MCCG), ar draws hen gymunedau'r meysydd glo.

Bydd deiliad y swydd yn dylunio ac yn cyflwyno rhaglen effaith uchel o fuddsoddiad a chefnogaeth, gan alluogi sefydliadau cymunedol i gynnal a datblygu asedau cymunedol, darparu mannau hygyrch ar gyfer gwasanaethau, a chryfhau cysylltiad cymdeithasol o fewn cymunedau.

Mae'r rôl yn atebol am reoli rhaglenni cyllido yn effeithiol, gan gynnwys buddsoddiad a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n strategol i: wneud y mwyaf o'r effaith gymunedol, cefnogi datblygiad sefydliadol, a galluogi cynaliadwyedd asedau hirdymor. Bydd y rôl yn sicrhau cyflawniad yn erbyn allbynnau cytunedig, canlyniadau a phroffiliau buddsoddi.

Fel arweinydd cydnabyddedig mewn trosglwyddo asedau cymunedol a datblygu asedau, bydd y deiliad swydd yn arwain gwaith YAYMG yn y maes hwn, gan weithio gyda chymunedau, cyrrff cyhoeddus a phartneriaid i ddarparu'r arbenigedd, y cydlynw a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni prosiectau trosglwyddo asedau cymhleth ac yn aml dwys.

Arwain tîm bach, sicrhau cyflawni rhaglenni o ansawdd uchel, rheoli perfformiad cryf a gweithio mewn partneriaeth effeithiol, dehongli blaenoriaethau strategol yn ganlyniadau mesuradwy a lleoli YAYMG fel partner dibynadwy ac arweinydd system mewn adfywio a arweinir gan y gymuned.

Cefnogi ansawdd, sydd wedi'i ymgorffori yn y system reoli i safonau a rheoliadau cenedlaethol a rhyngwladol, trwy gydymffurfio â phrosesau sefydledig. Adolygu a diweddarw polisiâu a gweithdrefnau rhaglenni bob blwyddyn a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben; awgrymu newidiadau i'r Uwch Reolwr, lle nad yw'n geidwad yn unol â Rheoli Dogfennau.

Cyfrifoldebau Allweddol: Datblygu Rhaglen

- Arwain dylunio, datblygu a gwella parhaus rhaglen Cymorth YAYMG yng Nghymru, mewn ymateb i anghenion cymunedol, gan sicrhau aliniad â strategaeth sefydliadol a blaenoriaethau polisi Cymru.
- Nodi cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg i gryfhau effaith y rhaglen, cynaliadwyedd a chyrhaeddiad ar draws cymunedau meysydd glo.

Cyflwyno a Pherfformiad Rhaglenni

- Goruchwyllo cyflawni gweithgarwch rhaglen o ansawdd uchel effeithiol, gan sicrhau cyflawni'r allbynnau y cytunwyd arnynt, canlyniadau a phroffiliau buddsoddi.
- Monitro perfformiad yn erbyn targedau, gan gymryd camau cywiro lle bo angen i sicrhau bod y cyflawniad yn parhau ar y trywydd iawn.
- Sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer casglu, monitro a gwerthuso data i dystiolaeth o effaith y rhaglen.
- Arwain y gwaith o reoli rhaglenni cyllido yng Nghymru, gan gynnwys rhaglenni grant a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod yr holl gyllid yn cael ei ddyrannu a'i reoli yn unol ag amcanion y rhaglen, gofynion cydymffurfio, a rheolaethau ariannol.
- Goruchwyllo prosesau asesu, cymeradwyo a monitro i sicrhau bod buddsoddiad yn cyflawni'r effaith gymunedol a'r cynaliadwyedd mwyaf posibl.

Datblygu Asedau Cymunedol a Pherchnogaeth Gymunedol

- Arwain gwaith YAyMG ar berchnogaeth gymunedol (gan gynnwys trosglwyddo asedau cymunedol) a datblygu asedau cymunedol ledled Cymru.
- Darparu arweiniad arbenigol a chydlynu i gefnogi prosiectau trosglwyddo asedau cymhleth.
- Gweithio gyda chymunedau, cyrff cyhoeddus, a phartneriaid i sicrhau bod asedau'n gynaliadwy, wedi'u llywodraethu'n dda, ac yn darparu budd hirdymor.

Cefnogaeth Capasiti Sefydliadol

- Sicrhau bod y rhaglen Cymorth YAyMG yng Nghymru yn cryfhau gallu, gwytnwch a chynaliadwyedd sefydliadau MCCG.
- Galluogi sefydliadau i ddatblygu asedau cymunedol, darparu gwasanaethau hygyrch, a chryfhau cysylltiad cymdeithasol.

Partneriaethau

- Sicrhau bod Tîm Cymorth YAyMG yn datblygu ac yn cynnal partneriaethau effeithiol.
- Cynrychioli YAyMG fel partner dibynadwy a chyfrannwr arweiniol o fewn rhwydweithiau adfywio cymunedol a datblygu seiliedig ar asedau.
- Sefydlu YAyMG fel arweinydd system mewn adfywio a arweinir gan y gymuned trwy gydweithredu, dylanwadu a chyflawni partneriaeth.

Cyfraniad Corfforaethol

- Cyfrannu at gyflawni strategaeth sefydliadol, cynllun gweithredol ac amcanion ehangach YAyMG.
- Cefnogi adrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd, yn ôl yr angen.

Dangosyddion Perfformiad:

- Cyflawni allbynnau rhaglenni y cytunwyd arnynt, canlyniadau a phroffiliau buddsoddi.
- Rheoli a chydymffurfio Llywodraeth Cymru yn effeithiol a chyllid grant arall.
- Effaith amlwg ar allu, gwytnwch a chynaliadwyedd sefydliadau MCCG a gefnogir.
- Adrodd yn amserol a chywir i randdeiliaid mewnol ac allanol.
- Arweinyddiaeth effeithiol a rheoli perfformiad Tîm Cymorth YAyMG.
- Datblygu partneriaethau strategol cryf a chynhyrchiol ledled Cymru.
- Cyfraniad at welliant parhaus, datblygu polisi a blaenoriaethau sefydliadol.

Prif Ofynion y Swydd

Rheoli Llinell – Rheoli a chefnogi gweithwyr unigol neu wirfoddolwyr a lleoliadau profiad gwaith yn uniongyrchol, goruchwylio perfformiad, gosod ac adolygu amcanion blynyddol, nodi bylchau gwybodaeth a threfnu hyfforddiant perthnasol. Ymgymryd â thasgau priodol eraill yng nghydestun amcanion cyffredinol y swydd.

Creadigrwydd ac Arloesi – Defnydd rheolaidd o sgiliau creadigol i ddatrys problemau arferol/cymhleth a wynebwyd, diwygio gweithdrefnau presennol i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd, mentrau polisi cenedlaethol/lleol neu addasu anghenion esblygol. Bod yn rhan o ddatblygu dulliau / gweithdrefnau / atebion arloesol newydd ar draws ystod o feysydd; wedi'i arwain gan amcanion polisi eang.

Cysylltiadau a Pherthnasoedd – Cyfnewid gwybodaeth gymhleth yn rheolaidd a darparu esboniadau/cyngor clir ar faterion cyffredinol ac arbenigol; teilwra'r cyfathrebu yn unol â hynny heb leihau dealltwriaeth. Defnyddio gwybodaeth arbenigol i nodi'r ffordd orau o weithredu, gan bwysu manteision ac anfanteision ac esbonio'n glir y rhesymeg y tu ôl i'r ffordd arfaethedig o weithredu.

Bydd y rôl yn cynnwys siarad cyhoeddus â grŵp diddordeb cymysg, darparu cyngor ar faterion cymhleth iawn a datrys gwrthdaro.

Mae sefyllfaoedd yn debygol o gynnwys lefel benodol o gymhlethdod neu'n ddadleuol. Maent yn gofyn am sgiliau dylanwadu a bod yn ddiplomyddol mewn sefyllfaoedd sensitif. Gall canlyniad y cyswllt gael goblygiadau sylweddol i'r cyswllt neu'r gwasanaeth.

Penderfyniadau – Gosod canllawiau i eraill eu dilyn e.e. polisiâu newydd, a fydd yn cael effaith sylweddol ar weithrediadau mewnol a phenderfynu newidiadau sylweddol i ddarpariaeth gwasanaethau. Blaenoriaethu gwaith a datrys y mwyafrif o broblemau a wynebir o fewn y rôl, gan gyfeirio problemau yn unig sy'n anodd iawn, anarferol neu sy'n gofyn am fewnbwn arbenigol.

Nodi ffyrdd y gellir gwella prosesau presennol ac argymhell newidiadau sylweddol yn ysgrifenedig, a fyddai'n debygol o newid nodweddiadol darparu gwasanaethau a/neu effaith ar fentrau cyfan yr Ymddiriedolaeth.

Rheoli gweithrediad newidiadau gwasanaeth a newidiadau sylfaenol i bolisi/strategaeth yr Ymddiriedolaeth; gan gynnwys monitro, adolygu a phenderfynu ar effeithiolrwydd y newid.

Adnoddau – Atebol am ddefnyddio a diogelu systemau data, cynnal mesurau diogelu data digonol a sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gadw bob amser.

Gofynion Gwaith – Newid o un dasg i'r llall yn feunyddiol. Gall hyn arwain at newid sylweddol mewn tasgau. Datrys blaenoriaethau / anghenion adnoddau sy'n gwrthdaro yn rheolaidd.

Gwybodaeth a Sgiliau – Lefel fanwl o wybodaeth a sgiliau mewn disgyblaeth arbenigol i ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau uwch gan gynnwys datblygu cymunedol a throsglwyddo asedau.

Mae angen gwybodaeth a dealltwriaeth o annhegwch a'r materion sy'n wynebu cymunedau difreintiedig ynghyd ag ymagwedd hyblyg ac addasadwy at waith.

Profiad profedig mewn rheoli rhaglenni a phrosiectau llwyddiannus ac ymwybyddiaeth o

gyfundrefnau polisi a chyllido cyfredol a sut mae'r rhain yn cael eu cyflawni ar lefelau rhanbarthol a lleol.

Awdurdodau'r Swydd

Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth wedi neilltuo awdurdodau ar gyfer pob rôl. Mae'r awdurdodau hyn wedi'u manylu mewn cofnod awdurdodau ar wahân ynghyd â'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol.